**Grŵp trawsbleidiol ar Fenywod yn yr Economi**

**Cylch gorchwyl**

## Diben:

Amcan cyffredinol y grŵp fydd ystyried pa gamau sydd angen eu cymryd i gynyddu cyfle cyfartal ar gyfer menywod yng Nghymru.

I gyflawni hyn, bydd y grŵp yn ystyried ymchwil newydd ar fenywod yn yr economi, gan archwilio meysydd allweddol fel:

- Gwahanu ar sail rhyw
- Datblygiad gyrfaol
- Tanddefnyddio sgiliau menywod yn economi Cymru
- Arferion gwaith modern a sut gallant gynorthwyo menywod ym myd gwaith
- Cydbwyso dyletswyddau gofalu
- Menywod yn cael eu tangynrychioli ym myd busnes

## Aelodaeth:

Bydd y grŵp hwn yn dwyn ynghyd Aelodau'r Cynulliad a phartneriaid allweddol. Bydd sefydliadau allanol ag arbenigedd penodol yn cael eu gwahodd i'r cyfarfod fel sy'n briodol.

## Amserlen:

Rhagwelir y bydd y grŵp hwn yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn am gyfnod cyfyngedig a'r bwriad yw cynnal o leiaf wyth cyfarfod.

## Adrodd:

Cyhoeddir y cofnodion o fewn 4 wythnos i'r cyfarfod.